communitycatalysts®
unlocking potential effecting change

# Archwilio'r potensial ar gyfer mentrau cymunedol yng Ngwynedd

## Gwynedd, daearyddiaeth a demograffeg

Mae Gwynedd yn sir enfawr, hardd gyda phoblogaeth fach wasgaredig. Bangor yw'r ddinas fwyaf; mae ganddi brifysgol a phoblogaeth o 16,500 o bobl. Yn ogystal, mae gan Wynedd lawer o drefi marchnad bach a phentrefi, gan gynnwys y rhai yn ardaloedd y llechi, ond mae hi'n sir wledig ac arfordirol yn bennaf yn hytrach nag un drefol. Mae nifer fawr o gartrefi haf neu ail gartrefi yma, sy'n gallu ei gwneud hi'n anoddach i bobl iau aros yn eu trefi a'u pentrefi eu hunain. Mae'r ardal yn denu llawer o dwristiaid, ac mae ei phoblogaeth yn chwyddo yn yr haf ac ar adegau eraill pan fydd pobl ar eu gwyliau.

Mae gan y rhan fwyaf o'r sir boblogaeth isel gyda mwy o drigolion hŷn na'r cyfartaledd. Dywedir yn y Cynllun Heneiddio'n Dda:

*Mae 41% o boblogaeth y Sir dros 50 oed, o gymharu â 39% yng Nghymru ar gyfartaledd... Ar yr un pryd, mae dyheadau pobl hŷn - a dyheadau cymdeithas yn gyffredinol - yn newid. Mae pob arolwg yn dangos bod pobl hŷn yn dymuno aros yn eu cartrefi eu hunain, bod mor annibynnol ag sy'n bosib a chael hynny ag sy'n bosib o ddewis.*

Mae Gwynedd yn hyfryd ac mae hyn yn gwneud y sir yn lle deniadol i bobl ymddeol yma, weithiau gyda'u teuluoedd a'u ffynonellau cymorth naturiol ymhell i ffwrdd.

## Cryfderau'r gymuned

Yng Ngwynedd mae pobl yn gallu cefnogi ei gilydd ac yn gwneud hynny, ac mae llawer o egni a chreadigrwydd yn ddwfn yn y gymuned. Mae cysylltiadau lleol da mewn sawl ardal, ac mae capeli ac eglwysi, tafarndai ac ysgolion yn cydweithio'n dda iawn. Mae prosiectau bach, dan arweiniad pobl leol, yn dangos beth sy'n bosib.

Ar ddechrau'r pandemig, datblygodd y Cyngor ymateb 'gwarchod'. Roedd hyn yn cynnwys tîm o staff, wedi eu secondio o bob rhan o'r Cyngor a'r trydydd sector, llyfrgelloedd, tai ac ati. Wrth i gymunedau ddechrau symud i gefnogi pobl a oedd yn gwarchod, cynigiodd y Cyngor gefnogaeth iddyn nhw. Daeth dros 80 o grwpiau cymorth i'r amlwg, ac ymatebodd y tîm newydd i beth bynnag oedd ei angen arnyn nhw gyda chreadigrwydd a thosturi – gan eu galluogi yn hytrach na chyfarwyddo, a bod yn ymarferol a phragmatig.

Mae straeon wedi dod i'r amlwg am lawer o weithgareddau sy'n cael eu harwain gan y gymuned, yn aml yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, yn cael yr ymateb cryfaf e.e. landlord tafarn yn cynnig bwyd, siopau lleol yn darparu bwyd a llyfrgellydd yn helpu i ffurfio grŵp gwau. Camodd llawer o bobl i'r adwy ac yn aml y cwmnïau bach yn y sector preifat yn hytrach

na'r trydydd sector oedd y rhain. Nid oedd llawer o'r anghenion a'r ceisiadau a ddaeth i'r amlwg yn ymwneud â Covid, ond fe wnaeth y tîm newydd ymateb beth bynnag os oedden nhw'n gallu gwneud hynny.

Mae llawer o'r grwpiau hyn wedi parhau wrth i'r ymateb i anghenion yn sgil Covid leihau. Mae Covid wedi bod yn gatalydd i gysylltu â phobl a'u cymell, ond gallai hyn fod yn rhywbeth y gellid adeiladu arno'n ehangach yn y dyfodol.

Mae ysgolion ac adeiladau cymunedol eraill wedi eu harfogi'n dda, mae ganddyn nhw le a cheginau ac ati. Mae potensial gwirioneddol iddyn nhw weithredu'n llawer mwy fel canolfannau cymunedol.

## Gwasanaethau Cymorth Cymunedol

Yn dod dan Adran Economi a Chymuned y Cyngor.

*Mae'r adran yn darparu gwasanaethau er mwyn i drigolion Gwynedd wneud ein cymunedau yn llefydd gwell i fyw. Mae'n bwysig bod grwpiau gwirfoddol a mentrau lleol yn cael eu cefnogi i ymateb i gyfleoedd ac anghenion lleol. Mae gan y Cyngor rwydwaith o swyddogion i gefnogi cymunedau a 'CIST' o grantiau i gefnogi prosiectau cymunedol penodol.*

Mae ganddyn nhw fynediad at grantiau a/neu arian gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu a chyllido prosiectau cymunedol. Mae gan yr adran borth ar y we lle maen nhw'n hysbysebu grantiau y gall grwpiau cymunedol wneud cais amdanyn nhw.

Maen nhw'n arwain ar brosiectau'r Gronfa Adfywio Cymunedol. Mae'r syniadau ar gyfer prosiectau'n cynnwys tafarndai cymunedol, prydau bwyd a chylchoedd cyfeillgarwch a mentrau cysylltiedig eraill.

Mae gan y tîm 5 Swyddog Cymorth Cymunedol llawn amser sy'n gweithio yn yr ardal. Mae'r swyddogion hyn yn adnabod eu hardaloedd yn dda iawn, ac maen nhw'n adnabod pobl a grwpiau yn lleol. Mae pob swyddog yn gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol ar brosiectau a chynlluniau newydd. Maen nhw'n mentora, cefnogi, cynllunio a chynorthwyo grwpiau i wneud cais am grantiau. Maen nhw'n gweithredu fel cyswllt rhwng y gymuned ac adrannau eraill y Cyngor. Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol a'u cysylltiadau wedi bod yn allweddol drwy Covid. Maen nhw wedi datblygu cynlluniau cyfeillio a chynlluniau eraill i helpu pobl sy'n gwarchod a bod yn gatalyddion ar gyfer gweithredu'n lleol.

Mae oddeutu 65 o Gynghorau Tref neu Gymuned yng Ngwynedd ac mae gan bob un glerc a rhywfaint o allu i weithredu'n lleol. Maen nhw'n dod yn fwy gweithgar, gydag aelodau newydd ac iau, yn cefnogi ac yn sbarduno mentrau cymunedol. Mae gan Swyddogion Cymorth Cymunedol gysylltiadau cryf â'r Cynghorau Cymuned yn eu hardal.

Mae'n ymddangos bod potensial gwirioneddol i ofal cymdeithasol chwarae rhan gref yn y gwaith datblygu cymunedol lleol hwn, ond nid yw'n gwneud hynny eto. Gallai gweithio drwy a gyda strwythurau cymunedol presennol esgor ar bosibiliadau go iawn.

Mae'r tîm yn dechrau ymgynghori gyda grwpiau cymunedol i nodi blaenoriaethau lleol a datblygu cynlluniau ardal lleol. Mae cyfleoedd i ofalu am bobl leol a'u cefnogi yn cael eu hystyried yn bwysig a bod hyn yn cyd-fynd yn dda â rhaglen datblygu menter gymunedol.

## Cyflogaeth a menter

Mae cyflogaeth yng Ngwynedd yn gymhleth a braidd yn unigryw. Mae llawer o swyddi rhan amser, cyflog isel, gyda llawer ohonyn nhw'n gysylltiedig â'r diwydiant twristiaeth ac yn aml yn ansicr. Mae rhai pobl yn jyglo nifer o'r rhain yn hytrach na chael un prif swydd. Mae tangyflogaeth yn fwy o broblem na diweithdra – gyda rhai pobl ar gyrion argyfwng drwy'r amser. Mae llawer o ficro-fentrau a phobl hunangyflogedig yn gweithredu o fewn y categori hwn - er enghraifft, glanhawyr cartrefi gwyliau. Ceir hefyd nifer o fentrau bach sy'n cynnig gwasanaethau gofal a chymorth yn y cartref (gweler atodiad A).

Mae llawer o enghreifftiau cryf ychwanegol o bobl leol yn dechrau mentrau eraill sydd wedi eu gwreiddio'n lleol ac sy'n gweithio go iawn – coffi, caffi, mynydda, ioga a siop feiciau. Llawer o bobl entrepreneuraidd a syniadau da.

Mae pobl entrepreneuraidd i'w cael, gan gynnwys pobl ifanc, ond nid yw'r potensial hwn wedi ei gyffwrdd rhyw lawer, gyda llawer o bobl iau yn symud o'r ardal i chwilio am gyfleoedd gwaith. Mae atynfa'r ardal i dwristiaid yn golygu bod pobl yn prynu ail gartrefi, ac mae hyn yn cynyddu prisiau tai sydd yn gwaethygu'r her i bobl ifanc ymhellach, a allai fod yn brynwyr neu'n rhentu am y tro cyntaf yn lleol.

Hoffai'r Cyngor helpu i greu neu alluogi mwy o swyddi da, diogel sy'n talu'n dda ac sy'n creu cyfleoedd i bobl ifanc a chadw arian lleol yn lleol.

## Datblygu Economaidd

Tîm o fewn y Gyfarwyddiaeth Economi a Chymuned sy'n gweithio ochr yn ochr â'r Tîm Gwasanaethau Cymorth Cymunedol[1].

*Rydyn ni'n cydweithio gyda phartneriaid i greu'r amodau i fusnesau a mentrau sefydlu eu hunain, i fod yn gystadleuol a datblygu yng Ngwynedd, gan greu swyddi o ansawdd uchel ar draws y sir.*

Mae'r gwaith yn cynnwys:

- **Cymorth Busnes** – 2 aelod o staff sy'n cynnig cyngor a chyllid i fusnesau ledled Gwynedd. Mynediad at grantiau mewnol a chyfeirio at/sicrhau grantiau allanol. Mae rhywfaint o'u gwaith yn gysylltiedig â/yn cael ei gyllido gan fentrau cenedlaethol ehangach a photiau cyllido e.e. Busnes Cymru
- **Gwerth Uchel Cymru** – gweithgarwch i ddenu a chadw sectorau/busnesau gwerth uchel i Wynedd. Creu swyddi da sy'n talu'n dda a chadw arian yn lleol. Mae'r sectorau presennol yn cynnwys busnesau technoleg a'r rhai sy'n ymwneud ag awyrofod.

[1] https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Cymorth,-cefnogaeth-a-hyfforddiant/Cymorth,-cefnogaeth-a-hyfforddiant.aspx

- **Cyflogaeth a chyflogadwyedd** – nid oes diweithdra yng Ngwynedd ond mae pobl sy'n economaidd anweithgar ac sydd angen cymorth i fod yn fwy economaidd weithgar.

Mae gan y Tîm Economi ddiddordeb ym mhotensial gofal cymdeithasol fel sector busnes – er ei fod ar hyn o bryd yn sector sy'n tueddu i eistedd ochr yn ochr yn hytrach nag yn gadarn dan fantell yr economi – mae'n cael ei ystyried yn wahanol i sectorau eraill.

Maen nhw eisoes yn cynnig cyngor a chefnogaeth i fusnesau bach a busnesau newydd, a gallai mentrau bach ym maes gofal cymdeithasol gael eu cynnwys yn hawdd yn hyn. Mae'r tîm hefyd yn gallu tynnu arian o Busnes Cymru ar gyfer gwaith wedi ei deilwra, a gallai rhaglen menter gofal cymdeithasol fod yn rhywbeth y gellid ei gyllido fel hyn – gan gynnig rhaglen cyngor busnes wedi ei theilwra a fyddai'n rhedeg ochr yn ochr â rhaglen waith fwy penodol.

Gallai micro-fentrau cymunedol yn y sector gofal cymdeithasol olygu bod gweithwyr yn cael eu talu ychydig yn well, gan leihau'r 'gostyngiad' o'r economi leol sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda chwmnïau mawr, nid lleol, yn cynnig gofal cartref a chwmnïau tebyg eraill – byddai arian lleol yn aros yn lleol, yn cyd-fynd â'r agenda 'prynu'n lleol' ac o fudd i'r economi leol yn hytrach na'r rhai sy'n bell o Wynedd.[2]

## Bwrdd Adfywio

Mae gan y Cyngor Fwrdd Adfywio newydd gyda chysylltiadau rhanbarthol a ffocws ar fenter, swyddi a thwf yn yr ardaloedd[3].

Mae'r bwrdd yn annog prynu o bob rhan o'r Cyngor. Nid yw'r Bwrdd hwn wedi gwneud cysylltiad cryf â gofal cymdeithasol eto nac wedi gweld bod gan ofal cymdeithasol botensial da ar gyfer swyddi/adfywio, ond gall hyn fod yn gyfle. Gallai olygu mentrau bach unigol yn gweithio mewn partneriaethau neu rwydweithiau i gael yr effaith fwyaf yn lleol a chadw arian lleol yn lleol. Neu gallai olygu bod hybiau cymunedol lleol yn cael eu helpu i feddwl am ofal cymdeithasol ac fel maes y gallen nhw ddatblygu iddo.

## Oedolion, Iechyd a Llesiant

Mae Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys Gofal Cartref, sef ffocws yr ymchwiliad hwn, yn dod o dan Gyfarwyddiaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant y Cyngor[4].

Mae'r Cyngor yn rhedeg ei wasanaeth gofal cartref ei hun gyda 50% o wasanaethau lleol yn cael eu darparu gan y gwasanaeth hwn.

*Mae tua 1,000 o bobl yng Ngwynedd yn derbyn gofal cartref gan y Cyngor neu gan ddarparwr gofal arall. Ond mae'r galw am y gwasanaethau hyn yn llawer uwch na nifer y gweithwyr gofal cartref sydd ar gael, ac mae'n codi'n sylweddol yng Ngwynedd yn yr un modd â gweddill y wlad. O ganlyniad, mae pobl yn aml yn byw gartref heb y gofal sydd ei angen arnyn nhw neu'n*

[2] https://cles.org.uk/

[3] https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Busnesau/Adfywio/Adfywio.aspx

[4] https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Adrannaur-Cyngor/Cynlluniau-adran-2021/Cynllun-Adran-Oedolion.pdf

*gorfod aros yn ddiangen yn yr ysbyty neu mewn cartref preswyl. Yn draddodiadol, mae cymorth gofal cartref wedi canolbwyntio ar gwblhau tasgau penodol ar adegau penodol o'r dydd o fewn amserlenni penodol. Nid yw'r ffordd hon o weithio yn rhoi llawer o amser i wrando a deall beth sy'n wirioneddol bwysig i'r unigolyn, ac i sylweddoli pa fath o gymorth sydd ei angen arnyn nhw. Fel rhan o ymdrechion i fynd i'r afael â'r broblem hon, mae Llywodraeth Cymru wedi pasio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) sy'n caniatáu ac yn annog sefydliadau allweddol a'r rhai y mae angen gofal arnyn nhw i gydweithio i wneud pethau'n wahanol.*

## Comisiynu a chaffael

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn comisiynu sefydliadau darparwyr gofal allanol i ddarparu gofal cartref. Ar hyn o bryd mae cytundeb rhanbarthol ar draws gogledd Cymru sy'n cynnwys comisiynu darparwyr gofal cartref. Sefydlwyd hwn 4 neu 5 mlynedd yn ôl ac aeth allan i dendr, ail-agorodd 2 flynedd yn ôl ac ychwanegwyd un darparwr arall, sef Age Cymru. Roedd disgwyl i gynigwyr ddangos eu bod yn cyrraedd safonau penodol, eu bod yn gystadleuol o ran pris, bod ganddyn nhw wybodaeth leol a'u bod nhw'n bodloni gofynion iechyd a diogelwch. Gall darparwyr ar y rhestr osod eu cyfraddau eu hunain. Nid yw'r rhestr/tendr hwn yn agored i ddarparwyr newydd ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd mae 25 o ddarparwyr yn gweithredu yng Ngwynedd sydd wedi llofnodi'r cytundeb hwn. Yn ymarferol, mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n anweithredol yn yr ardal, gydag oddeutu 10 darparwr yn gweithredu'n gryf. Mae darparwyr yn eithaf amrywiol, gyda chwmni mawr o Loegr (AbbaCare) yn gweithio ar draws yr holl sir, a sefydliadau canolig a rhai llai o'r ardal leol. Ceir enghreifftiau o ddarparwyr a ddechreuodd fel mudiadau llai, ar lawr gwlad, i lenwi bwlch ac sydd bellach wedi eu comisiynu gan y Cyngor. Mae gan un darparwr nifer fach o staff, mae'n cael ei redeg gan deulu ac mae ganddo lawer o gleientiaid preifat yn ogystal â chleientiaid sy'n cael eu cyfeirio gan y Cyngor. Mae rhai cwestiynau'n lleol am gynaliadwyedd a chadernid darparwyr llai. Nid yw'r Cyngor yn contractio mewn unrhyw fodd gyda darparwyr nad ydyn nhw ar y rhestr hon.

Yn ogystal â'r rhestr ar gyfer gofal cartref, mae gan y Cyngor restr o 'gwmnïau domestig' maen nhw'n eu contractio i ddarparu cymorth i bobl yn y cartref (dim gofal). Addasodd y Cyngor y cytundeb gofal cartref rhanbarthol i gynhyrchu tendr lleol ar gyfer y sefydliadau hyn. Mae 3 sefydliad ar y rhestr hon ac maen nhw i gyd yn gwmnïau eithaf bach, ond nid yn gwmnïau micro. Nhw sy'n pennu eu cyfraddau eu hunain. Gall Timau Adnoddau Cymunedol gyfeirio pobl at y sefydliadau hyn. Mae'r rhestr/cyfle tendro hwn yn agored bob amser, felly gallai sefydliadau domestig eraill ymuno ag ef a chael eu contractio gan y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn awyddus i beidio â chau sefydliadau darparwyr newydd. Fe fyddai'n fodlon ailagor y rhestrau contractau a/neu addasu tendr neu fframwaith pe bai hyn yn helpu i gynyddu'r farchnad o sefydliadau y gellid cyfeirio pobl atyn nhw.

Mae datblygu'r dull gweithredu 'ar sail bro' newydd yn cael ei weld fel ffordd gadarnhaol o ddarparu marchnad gofal cartref sy'n fwy sefydlog.

Ceir enghreifftiau o fentrau cymunedol sefydledig nad ydyn nhw wedi eu cofrestru gydag AGC sy'n gweithredu ar Benrhyn Llŷn (gweler Atodiad A). Nid yw'r Cyngor yn gallu comisiynu ei

wasanaethau ond mae aelodau'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn cyfeirio rhai pobl a fydd yn talu drostyn nhw eu hunain. Mae pobl hefyd yn defnyddio eu gwasanaethau gan ddefnyddio Taliad Uniongyrchol.

## Llesiant

Cafodd tîm o tua 9 o bobl sy'n integreiddio gofal cymdeithasol ac iechyd ei greu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Maen nhw'n dod o dan Ofal Cymdeithasol i Oedolion, mae ganddyn nhw agenda ataliol a chymunedol ac maen nhw'n cysylltu'n agos â Chyfarwyddiaeth yr Economi a'r Gymuned a Phlant a Theuluoedd. Maen nhw'n cael eu cyllido'n bennaf gan y Gronfa Gofal Integredig ac maen nhw'n ymwneud â gweithgarwch sy'n cyd-fynd â'r agenda honno.
Mae'r prosiectau neu'r cynlluniau presennol yn cysylltu â gofalwyr, cymorth dementia, gwaith pontio'r cenedlaethau a hybu iechyd meddwl i ofalwyr ifanc. Yn y gorffennol, bu'r tîm yn arwain ar gynlluniau fel y Cynllun Heneiddio'n Dda a'r Llyfryn Gofalwyr

Mae'r tîm hefyd wedi gwneud gwaith ar fodelau gofal a chymorth eraill yn y gymuned sy'n adeiladu ar gryfderau, ac wedi bod yn gysylltiedig â'r cynllun Cysylltwyr Cymunedol sy'n seiliedig ar Dimau Adnoddau Cymunedol.

## Timau Adnoddau Cymunedol

Yn unol â'r Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, mae Cyngor Gwynedd, mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, wedi sefydlu 5 Tîm Adnoddau Cymunedol[5] . Mae Timau Adnoddau Cymunedol yn aml-ddisgyblaeth gyda nyrsys ardal, gweithwyr cymdeithasol, cysylltwyr cymunedol, darparwyr gofal ac eraill i gyd yn gweithio gyda'i gilydd. Mae timau'n darparu gwasanaethau a chymorth i bobl hŷn a phobl ag anabledd corfforol ac anabledd synhwyraidd. Mae ardaloedd ail haen ym mhob tîm.

*Sefydlu Timau Adnoddau Cymunedol Lleol* **-** *sefydlwyd pum Tîm Adnoddau Cymunedol i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cydlynol yn y gymuned. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gofal yn cael ei drefnu'n gyflym ac yn briodol, gyda gweithwyr gofal iechyd, gweithwyr gofal cymdeithasol, gweithwyr gofal cartref, teuluoedd, cymunedau a'r unigolion eu hunain yn cydweithio'n fwy effeithiol.*

Mae 5 arweinydd tîm ac maen nhw'n rheoli timau o weithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol ac ymarferwyr eraill – heb gynnwys cydweithwyr yn y sector iechyd ehangach – er bod yr integreiddio hwn yn rhan o'r agenda trawsnewid ehangach sydd ar y gweill. Mae gan bob Tîm Adnoddau Cymunedol Gysylltydd Cymunedol, a gyflogir gan fudiad trydydd sector, sy'n cynnig cyngor a gwybodaeth i bobl am gymorth a phethau eraill yn eu cymuned.

Mae'r broses ar gyfer pob Tîm Adnoddau Cymunedol yr un fath. Pobl sy'n cysylltu ar y dechrau, fel arfer drwy'r rhif gwybodaeth un stop/e-bost/ffurflen ar-lein a elwir yn IA[6]. Pan fydd yr unigolyn yn cysylltu â rhywun o'r tîm, fe fyddan nhw'n eu ffonio am sgwrs ac yna fe fyddan nhw'n cael gweithiwr – gweithiwr cymdeithasol neu ymarferydd gofal. Bydd y

[5] https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Iechyd-a-gofal-cymdeithasol/Oedolion-a-phobl-h%C5%B7n/Oedolion-a-phobl-h%C5%B7n.aspx
[6] https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Iechyd-a-gofal-cymdeithasol/Oedolion-a-phobl-h%C5%B7n/Sut-mae-cael-cymorth.aspx

gweithiwr yn cwrdd â'r unigolyn ac yn cael sgwrs 'beth sy'n bwysig' a bydd penderfyniad yn cael ei wneud ynghylch a yw'n gymwys i gael cymorth a gyllidir gan y sector cyhoeddus.

Os nad yw'r unigolyn yn gymwys, gellir ei gyfeirio at Gysylltydd Cymunedol y tîm neu lwybr arall at gymorth, gan gynnwys gwasanaethau ar restr cymorth domestig y Cyngor.

Os ydyn nhw'n gymwys o bosib, mae'r gweithiwr yn cynnal asesiad, yn datblygu cynllun gofal ac yna'n cyfeirio'r unigolyn am addasiadau, offer, prydau bwyd neu wasanaethau fel gofal cartref. Ar hyn o bryd maen nhw hefyd yn trafod Taliadau Uniongyrchol.

Os oes angen gofal cartref ar bobl, ceir rhestr o ddarparwyr y gall y tîm gyfeirio pobl atyn nhw. Mae rhai ardaloedd yn cael eu gwasanaethu'n well gan ddarparwyr nag eraill, ac mae bylchau cynyddol rhwng pobl sydd angen gofal a darparwyr sy'n gallu darparu'r hyn sydd ei angen. Mae rhai darparwyr hefyd yn 'rhoi pobl yn ôl' – yn dweud wrth y Cyngor na allan nhw neu na fyddan nhw'n darparu gwasanaeth i rywun maen nhw wedi cytuno i'w gefnogi.

Gallai gweithwyr hefyd siarad â phobl am hunan-gyllido neu Daliadau Uniongyrchol er mwyn eu galluogi nhw i brynu gwasanaethau gan ddarparwyr neu fudiadau eraill nad ydyn nhw ar restrau'r Cyngor. Gall y dull hwn alluogi gweithwyr i oresgyn rhwystrau/bylchau mewn gwasanaethau.

I bobl sy'n gymwys, mae'n ymddangos bod Timau Adnoddau Cymunedol yn canolbwyntio'n gryf ar 'alwadau' sy'n canolbwyntio ar amser a thasgau. O ganlyniad, ystyrir mai darparwyr gofal cartref traddodiadol yw'r unig ffordd o ddiwallu anghenion pobl a dod o hyd i 'ddarparwr i ateb y galwadau' yn hytrach na deall a chyflawni canlyniadau i bobl. Mae rhai o'r farn y gallan nhw weithiau ei chael hi'n anodd gweithio'n fwy creadigol i helpu pobl mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw.

Gall darparwyr gofal cartref ei chael hi'n anodd darparu'r 'galwadau' y gwelir bod eu hangen ar bobl, felly gall y ffocws cul hwn arnyn nhw olygu bod pobl yn wynebu ychydig o ddewis neu ddim dewis o gwbl o ran sut mae eu hanghenion yn cael eu diwallu a/neu amseroedd aros hir neu hyd yn oed dim cefnogaeth.

## Cysylltwyr Cymunedol

Mae gan bob un o'r 5 Tîm Adnoddau Cymunedol Gysylltydd Cymunedol fel rhan o'r tîm. Mae pobl yn gweld y rôl hon a sut mae'n cael ei chyflawni mewn ffyrdd gwahanol iawn, gyda rhai'n ei gweld yn allweddol ac eraill yn ei gweld yn llai pwysig.

Mae'n ymddangos bod gan Gysylltwyr Cymunedol gysylltiadau cryf â'u sector gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol lleol ac, yn ystod y cyfnod cyn Covid, fe fuon nhw'n sgwrsio â phobl nad ydyn nhw'n gymwys i gael gofal, yn trefnu cysylltiadau cymdeithasol rhwng pobl ac yn gweithredu fel catalydd ar gyfer grwpiau a gweithgareddau newydd sy'n dod i'r amlwg e.e. helpu i sefydlu Meds Shed. Mae Covid wedi gwneud hyn yn anodd gan fod y rhan fwyaf o grwpiau a gweithgareddau wedi dod i ben – gan adael ychydig iawn o ffynonellau i gyfeirio pobl atyn nhw a llai o 'hidlo' drwy 'gymorth lefel isel' o ganlyniad.

Nid yw'n ymddangos bod cysylltiad da rhwng Cysylltwyr Cymunedol a Swyddogion Cymorth Cymunedol, ac mae cwestiynau hefyd ynghylch cryfder eu cysylltiadau lleol, cymunedol (yn hytrach na'r gymuned wirfoddoli a mentrau cymdeithasol).

## Taliadau Uniongyrchol

Mae gan Wynedd bolisi clir sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran Taliadau Uniongyrchol, a gafodd ei gydgynhyrchu a'i gymeradwyo yn 2015/16. Mae'r polisi'n canolbwyntio'n gryf ar ddewis a rheolaeth, ac mae'n rhoi Taliadau Uniongyrchol fel dewis i bobl gyflawni hyn. Mae hefyd yn canolbwyntio ar fodloni canlyniadau llesiant personol pobl.

Mae'n bosib y bydd bwlch rhwng y polisi a'r ymarfer presennol.

Y broses yw bod gweithiwr cymdeithasol neu aelod arall o'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn asesu anghenion yr unigolyn ac yn cytuno ar y canlyniadau y mae angen iddyn nhw eu cyflawni. Maen nhw wedyn yn cynnig amrywiaeth o ddewisiadau i'r unigolyn o ran cyflawni'r canlyniadau hynny, gan gynnwys teulu, y trydydd sector, gwasanaethau a gomisiynir neu Daliad Uniongyrchol.

Mae gan wahanol aelodau o'r Tîm Adnoddau Cymunedol safbwyntiau gwahanol am Daliadau Uniongyrchol. Mae rhai'n ymddangos yn frwdfrydig ac yn hyderus i'w hyrwyddo ac eraill yn llai o lawer. Mae Taliadau Uniongyrchol yn cael eu hystyried yn gymhleth ac yn llawer mwy o waith na'r dewis arall o wasanaeth wedi ei gomisiynu a llawer o gyfrifoldeb dros y bobl sy'n eu cymryd.

Os bydd pobl yn dewis Taliad Uniongyrchol, yna fe fyddan nhw'n cael 2 ddewis – gwneud popeth eu hunain neu bydd ganddyn nhw gyfrif wedi ei reoli[7]. Mae'r Cyngor yn contractio gyda sefydliad o'r enw Rowan i gynnig y gwasanaeth dan reolaeth hwn. Mae gan Rowan Organisation dîm o 5 cynghorydd sy'n gweithredu ar draws Gwynedd a 2 sir arall yng ngogledd Cymru. Mae'r gwasanaeth hwn wedi cael ei aildendro'n ddiweddar.

Mae meddwl am Daliadau Uniongyrchol yn ymddangos yn berthnasol iawn i bobl sy'n cyflogi eu staff eu hunain, er bod y polisi'n glir iawn y gall (ac y dylai) fod â ffocws ehangach o lawer. Dangosir hyn yn y mandad a roddir i'r sefydliad yn y tendr, sy'n canolbwyntio'n gryf ar bobl sydd eisiau bod yn gyflogwyr. Gyda'r fanyleb[8] yn sôn am helpu pobl sy'n cymryd Taliad Uniongyrchol i recriwtio, cyflogi a rheoli Cynorthwyydd Personol. Nid oes fawr o bwyslais, os o gwbl, ar bobl a allai fod eisiau cymryd Taliad Uniongyrchol, fel cronfa a reolir, a'i ddefnyddio i gontractio gyda darparwr a/neu brynu rhyw fath arall o gymorth. Adlewyrchir hyn yn y gwasanaeth a gynigir ar hyn o bryd gan Rowan ar eu gwefan.

Mae gan y Cyngor gyfradd fesul awr o bron i £13 yr awr i bobl sy'n cymryd Taliad Uniongyrchol. Cyfrifir hyn gyda'r dybiaeth y bydd pobl yn cyflogi staff, ar gyfradd fesul awr resymol gydag ychwanegiadau ar gyfer gwyliau, tâl salwch ac ati. Nid yw'r gyfradd hon yn ddigyfnewid ac o fewn y polisi gall gweithwyr cymdeithasol gyflwyno achos i ganlyniadau'r unigolyn gael eu cyflawni mewn ffordd arall ac ar gyfradd uwch, cyn belled â'u bod yn dangos sut byddan

[7] https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Iechyd-a-gofal-cymdeithasol/Oedolion-a-phobl-h%C5%B7n/Cygnor-ariannol-a-chyfreithiol/Taliadau-Uniongyrchol.aspx

[8] https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/search/show/search_view.aspx?ID=APR362725

nhw'n cael eu cyflawni. Nid yw'n ymddangos bod yr agwedd hon ar y polisi yn cael ei deall na'i gweithredu'n dda. Dywed staff lleol fod cyfyngiadau ar y gyllideb yn golygu bod cyfiawnhau cyfraddau uwch yn her.

Gall pobl ddewis cyflogi aelodau o'r teulu. Mae recriwtio Cynorthwywyr Personol hefyd yn her gyda phobl yn 'pysgota yn yr un pwll bach' ag asiantaethau gofal mwy.

Mae 170 o bobl yng Ngwynedd yn derbyn Taliad Uniongyrchol. Mae'r nifer sy'n manteisio ar Daliadau Uniongyrchol ymhlith pobl hŷn yng Ngwynedd yn isel. Ar Benrhyn Llŷn dim ond tua 15 o bobl sy'n cymryd Taliad Uniongyrchol. Mae'r bobl sy'n cymryd Taliad Uniongyrchol yn dweud ei fod yn gweithio'n dda – mae'n ymddangos bod yr hyblygrwydd a'r rhyddid yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Mae rhai pobl yn defnyddio Taliad Uniongyrchol i brynu gwasanaethau gan fentrau bach.

Bydd y model Gofal Cartref newydd yn symud o brynu gan unrhyw ddarparwr yn y fan a'r lle i fodel dalgylchoedd lle bydd pobl yn gorfod defnyddio gwasanaethau'r un darparwr sydd yn eu hardal. Gallai Taliadau Uniongyrchol gynnig cyfleoedd. Os yw darparwr y mae rhywun yn ei adnabod ac yn ymddiried ynddo 'wedi colli'r ardal' yn y broses aildendro, yna gall yr unigolyn barhau i ddefnyddio'r darparwr hwnnw drwy gymryd a defnyddio Taliad Uniongyrchol. Drwy wneud hynny, maen nhw'n gallu cadw eu hasiantaeth/perthnasau gwreiddiol. Bydd y Cyngor yn awdurdodi cyfradd uwch o Daliad Uniongyrchol er mwyn gallu anrhydeddu'r gyfradd arferol a godir gan y darparwr.

## Iechyd

Mae ffin y Bwrdd Iechyd yn cwmpasu nifer o ffiniau awdurdodau lleol gan gynnwys Gwynedd.

Mae Ysbyty Gwynedd ym Mangor yn ysbyty cyffredinol i'r ardal ym Mangor sy'n cael ei reoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n gwasanaethu poblogaeth Bangor, Ynys Môn, Conwy a Gwynedd. Mae ganddo tua 300 o welyau i gleifion mewnol. Yn ogystal, mae 7 ysbyty cymunedol ar wasgar o gwmpas Gwynedd ac Ynys Môn.

### Rhyddhau o ysbyty, gofal cartref a chymorth yn y cartref

Mae ffiniau'r Bwrdd Iechyd yn cwmpasu nifer o ffiniau awdurdodau lleol, a gall hyn beri heriau i staff iechyd sy'n ymwneud â rhyddhau pobl a fydd angen cymorth gartref ac i'r Cyngor a staff lleol eraill sy'n gyfrifol am drefnu'r cymorth hwnnw. Mae gan bob ysbyty Dîm Rhyddhau a/neu arweinydd rhyddhau.

Ychydig o ymwybyddiaeth sydd gan nyrsys a gweithwyr proffesiynol eraill mewn ysbytai o'r dewisiadau gofal a chymorth sydd ar gael i bobl ar ôl iddyn nhw adael yr ysbyty. Mae Timau Adnoddau Cymunedol ym mhob ardal yng Ngwynedd yn cael eu gweld fel y sylfaen wybodaeth hon ac fel cydlynydd gweithgarwch iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ardal.

Pan fydd unigolyn i fod i adael yr ysbyty, bydd y nyrs/ward yn llenwi ffurflen gyfeirio i'w hanfon at y Tîm Adnoddau Cymunedol i sbarduno'r gwaith o drefnu gofal cartref neu gymorth

arall. Ystyrir hyn yn swyddogaeth/mater nyrsio/ward yn hytrach na rhywbeth sy'n perthyn i waith cymdeithasol.

Nid yw Timau Adnoddau Cymunedol yn cadw mewn cysylltiad â phobl yn eu hardal sy'n mynd i'r ysbyty, hyd yn oed pan fyddan nhw'n hysbys ac yn defnyddio gofal cartref neu wasanaethau tebyg eraill. O ganlyniad, hyd yn oed os oedd yr unigolyn yn derbyn gofal cartref neu gymorth arall cyn iddo fynd i'r ysbyty, nid yw'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn codi'r mater yn awtomatig. Mae Timau Adnoddau Cymunedol yn gwybod y bydd yr unigolyn yn gadael yr ysbyty ond nid yw'n gallu gweithredu nes bydd yn derbyn y gwaith papur rhyddhau. Mae hyn yn creu oedi i'r unigolyn ac i'r ysbyty a heriau i'r Tîm Adolygu Gofal Plant ac i ddarparwyr gofal.

Mae Covid wedi creu heriau ychwanegol. Cyn y pandemig roedd nifer o sefydliadau trydydd sector yn gweithio ar y wardiau, gan gynnwys y Groes Goch, Gofal a Thrwsio, Cynnal Gofalwyr ac Age Cymru. Gallai'r sefydliadau hyn gynghori pobl cyn iddyn nhw fynd adref a dechrau gwneud trefniadau ar eu cyfer. Mae Covid wedi golygu nad oes ganddyn nhw bresenoldeb mwyach, felly nid yw'r gwaith cynnar hwn yn cael ei wneud.

Er bod Timau Adnoddau Cymunedol yn rhai aml-ddisgyblaeth, nid yw atgyfeiriadau rhyddhau o ysbytai a llwybrau atgyfeirio yn dilyn yr un patrwm, ac mae atgyfeiriadau unigol yn cael eu gwneud i aelodau unigol Timau Adnoddau Cymunedol.

Bob dydd, ceir rhestr ddyddiol o bobl yn yr ysbyty sy'n feddygol ffit i ddod adref – *'62 o bobl ar y rhestr heddiw er enghraifft'.* Pobl hŷn yw'r rhan fwyaf o'r rhain. Mewn rhai ardaloedd, mae timau'n cwrdd ddwywaith y dydd i drafod y bobl hyn a'r help y bydd ei angen arnyn nhw gartref ar ôl iddyn nhw gael eu rhyddhau. Gall y diffyg gwasanaethau gofal sydd ar gael olygu bod pobl yn cael eu dynodi fel rhai sy'n 'aros am becynnau gofal' ac yn aros yn yr ysbyty am gyfnod hwy nag sydd raid iddyn nhw o ganlyniad.

Gall pobl y mae angen cymorth arnyn nhw gartref gael eu cyfeirio at amrywiaeth o ddarparwyr gofal cartref gan gynnwys y rhai a redir gan y Cyngor ac eraill sydd ar y fframwaith lleol. Mae darparwyr yn tueddu i gael eu comisiynu i ddarparu gwasanaethau 'amser a thasg' sy'n draddodiadol ac yn drafodaethol yn hytrach na rhai creadigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn cysylltu ag un o'r darparwyr ar y rhestr ac yn gofyn a ydyn nhw'n gallu 'dygymod â'r pecyn', ac os nad yw'r darparwr sy'n cael ei ffafrio yn gallu darparu'r cymorth sydd ei angen, anfonir y cais at yr holl ddarparwyr ar y rhestr i weld a oes unrhyw un ohonyn nhw'n gallu ymgymryd â'r gwaith. Ni all y Tîm Adnoddau Cymunedol gyfeirio at wasanaethau neu gymorth arall a allai gynnig yr hyn y mae pobl ei eisiau neu ei angen.

Gall pobl ddewis cymryd Taliad Uniongyrchol, ac mae hyn yn golygu eu bod nhw'n cael mwy o ddewis o ran sut mae modd diwallu eu hanghenion cymorth. Mae'r broses yn araf, fodd bynnag, a gall hyn fod yn anghymhelliad i bobl sydd wedi dewis y dull hwn o weithredu.

## Gwybodaeth a chyngor

Fel sy'n ofynnol dan y gyfraith, mae Gwynedd yn cynnig un pwynt mynediad i bobl sydd angen gofal a chymorth. Mae 5 o'r rhain, pob un yn gysylltiedig ag un o'r Timau Adnoddau

Cymunedol ac yn cael eu goruchwylio ar sail rota gan aelodau o'r Tîm Adnoddau Cymunedol. Gelwir hyn yn system IA. Mae ymholiadau'n cyrraedd dros y ffôn, drwy e-bost neu drwy lenwi ffurflen ar-lein i ofyn am help . Un nod yw osgoi'r angen i bobl ddefnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion.

Mae'r ffurflen ar-lein yn canolbwyntio ar y gwasanaeth, gan ofyn i bobl pa wasanaethau maen nhw eu heisiau a'u hangen yn hytrach na beth sy'n bwysig iddyn nhw, beth sy'n gweithio iddyn nhw a beth allen nhw fod angen help i'w wneud.

Mae aelodau Timau Adnoddau Cymunedol, gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, cysylltwyr cymunedol a Therapyddion Galwedigaethol, yn ymateb i'r ymholiadau sy'n dod i mewn, gan gynnig sgwrs dros y ffôn, a chynghori pobl ar eu dewisiadau.

Mae system sharepoint newydd yn cael ei datblygu a fydd, ynghyd â swyddogaeth tîm arall, yn cynnig cyfeiriadur o wasanaethau a chymorth sydd ar gael yn lleol. Bydd y cyfeiriadur hwn yn fewnol i'r Timau Adnoddau Cymunedol/sector cyhoeddus ac nid yw ar gyfer y cyhoedd.

Bydd y system sharepoint, sy'n cwmpasu Gwynedd ac Ynys Môn i gyd, yn cynnig gwybodaeth am yr agenda trawsnewid ehangach a phrosiectau penodol sy'n dod o dan hynny. Bydd yn galluogi aelodau Timau Adnoddau Cymunedol i gadw a rhannu adroddiadau, gwybodaeth a chanllawiau. Yna, bydd gan bob ardal Tîm Adnoddau Cymunedol ei hadran ei hun o'r safle yn dangos ffiniau'r ardal a gweithwyr proffesiynol a gweithwyr allweddol – gyda manylion cyswllt. Bydd yr adran leol hon yn cynnwys ffolderi lle gall aelodau Timau Adnoddau Cymunedol rannu dogfennau a chydweithio. Yn ogystal, ceir cyfeiriadur lleol o wasanaethau a chymorth ym mhob ardal Timau Adnoddau Cymunedol. Gall holl aelodau'r Tîm Adnoddau Cymunedol lenwi hwn, gan gynnwys y Cysylltwyr Cymunedol. Ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio'n gryf ar ddarparwyr a'r trydydd sector, ond byddai'n hawdd defnyddio swyddogaethau'r safle i gasglu a rhannu gwybodaeth am amrywiaeth ehangach o ddewisiadau cymorth neu gyfleoedd eraill. Bydd y system hefyd yn caniatáu i gynulleidfa ehangach gael gafael ar wybodaeth a chyfrannu ati o bosib.

Mae'r system IA hefyd yn llwybr ar gyfer cyfeirio pobl sy'n gadael yr ysbyty ac sydd angen cymorth gartref. Yn ymarferol, gall y grŵp hwn fod yn brif ffocws timau cynghori'r Timau Cyfeirio Cymunedol, atgyfeirio at ddarparwyr gofal, wynebu heriau o ran dod o hyd i ddarparwr a allai helpu'r unigolyn ac yna ceisio dod o hyd i ddarparwr sy'n gallu gwneud hynny a/neu roi'r unigolyn ar restr aros. Mae hyn yn cymryd lle'r gwasanaeth broceriaeth a gyflawnai'r dasg hon yn flaenorol.

Er gwybodaeth i'r cyhoedd, Dewis yw cyfeiriadur gwasanaethau gofal a chymorth Llywodraeth Cymru, sydd ar gael i bob awdurdod. Er ei fod yn cael ei ddefnyddio gan wasanaethau plant yng Ngwynedd, mae'r gwasanaethau oedolion o'r farn nad yw'n lleol, nad yw'n gywir nac yn gyfredol. O ganlyniad, nid yw aelodau'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn eu defnyddio'n helaeth. Gall yr amharodrwydd hwn ymestyn i'r cyhoedd yn gyffredinol. Ceir barn yn lleol nad swyddogaeth Dewis ond yn hytrach sut mae'n cael ei ddefnyddio (neu ddim yn cael ei ddefnyddio) yn lleol yw'r her. Mae'n bosib i Dewis fod o werth gwirioneddol i Wynedd, gan gynnig gwybodaeth ddefnyddiol i'r cyhoedd.

## Bylchau a heriau

Mae rhestrau aros ar gyfer pobl y mae angen gofal cartref a chymorth gartref arnyn nhw. Mae rhestr aros hefyd i bobl gael asesiad cychwynnol. Nid yw pobl yn gallu cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn modd sensitif ac amserol ac mae'r sefyllfa'n heriol i bawb dan sylw.

Mae bylchau yn y ddarpariaeth gofal cartref a chymorth yn y cartref i bobl, ond nid yw'n glir a yw hyn yn systemig – gyda'r dull presennol o ymdrin ag amser, tasgau a galwadau yn annymunol ac yn anghynaliadwy neu ddiffyg gwirioneddol o ran darparwyr gwasanaethau/staff neu gyfuniad o'r ddau.

Mae prinder cyffredinol o weithwyr gofal ac mae hwn yn fater ar gyfer y sir gyfan. Ystyrir bod y sector yn cystadlu am weithwyr gyda sectorau eraill fel twristiaeth a lletygarwch. Yn ystod Covid, pan oedd twristiaeth yn llai a sefydliadau lletygarwch wedi cau, roedd rhai pobl yn dod o hyd i waith mewn gofal – gan fod y sectorau hyn yn ailagor, mae'n bosib y byddan nhw'n dychwelyd ac yn gadael bwlch yn y gweithlu gofal.

Mae Timau Adnoddau Cymunedol yn teimlo bod bylchau penodol o ran darparwyr sy'n gallu cynnig cymorth gyda gofal personol, yn enwedig i bobl sydd angen llawer o help. O ganlyniad i Covid, gadawyd gofalwyr teuluol heb gymorth, ac erbyn hyn rydyn ni'n gweld bod datgloi eu hangen am seibiant yn glir iawn.

Yn ogystal, mae aelodau Tîm Teulu Cymunedol Llŷn yn teimlo bod bylchau mawr yn y cymorth yn y cartref i bobl nad oes ganddyn nhw anghenion gofal personol, cymorth cynnar i bobl, i gadw eu cysylltiadau a'u hannibyniaeth.

Roedd ymateb cadarnhaol y Cyngor i Covid hefyd wedi nodi materion fel ynysu, tai, dyledion ac iechyd. Nodwyd pobl a ddylai fod ar radar y Cyngor ond nad oedden nhw wedi cael eu canfod, ac a allai fod wedi bod yn gymwys i gael gofal a chymorth ond nad oedden nhw'n cael darpariaeth o'r fath.

Gwelwyd bylchau mewn trafnidiaeth â chymorth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

## Mynd i'r afael â'r bylchau a'r heriau

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, datblygwyd prosiect rhanbarthol gan 6 awdurdod yng ngogledd Cymru a'r bwrdd iechyd, gyda Chyngor Gwynedd yn dewis defnyddio dull meddwl drwy systemau Vanguard.

*Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi bod yn gweithio i ddatblygu'r ffordd y caiff gofal cartref ei ddarparu er mwyn i'r cymorth ganolbwyntio ar helpu pobl hŷn i fyw eu bywydau fel maen nhw'n dymuno.*

Dechreuodd y gwaith gyda chynllun peilot mewn 5 ardal gyda 5 darparwr gofal cartref, gan fodelu system sy'n seiliedig ar dimau bach sy'n cael gwir ymreolaeth i helpu pobl mewn ffyrdd creadigol. Roedd y prawf hefyd yn ceisio gweld a oedd modd lleihau dibyniaeth pobl ar wasanaethau â thâl. Rhoddodd bobl yn y canol, gan gynnig cefnogaeth tîm bach neu bobl

penodol, gan ganolbwyntio'n fwy penodol ar eu canlyniadau personol. Mae gwaith wedi cael ei wneud hefyd ar y systemau sylfaenol a allai rwystro dull mwy integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, fel rhannu data.

Mae'r gwaith wedi paratoi Gwynedd ar gyfer tendrau gofal cartref newydd, wedi eu comisiynu ar sail 'bro', gydag 16 o ardaloedd ledled y sir. Yn y dyfodol, bydd 8 darparwr mewnol yn gwasanaethu 8 o'r ardaloedd a bydd yr 8 darparwr arall yn cael eu dewis gan ddefnyddio proses dendro. Bydd y tendrau'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau ac yn llai ar 'amser a thasg' na'r dull gweithredu presennol. Bydd staff yn cael cyfradd cyflog uwch i helpu i wella eu gallu i recriwtio.

Mae llawer o waith wedi cael ei wneud i helpu'r 10 darparwr presennol i ymgysylltu â'r newid hwn. Maen nhw wedi cael cynnig gweithdai, hyfforddiant ychwanegol a mentora. Mae'r Cyngor yn hyderus bod ganddo ddigon o sefydliadau darparu i redeg y system newydd, ond mae ansicrwydd o hyd am y diwylliant enfawr a'r newid mewn systemau y bydd yn rhaid i ddarparwyr ei wneud.

### Y potensial ar gyfer menter gymunedol

Rhan ehangach o'r agenda trawsnewid hon yw creu dewis go iawn i bobl sydd angen help i fyw eu bywydau. Mae potensial i fentrau bach weithio ochr yn ochr â'r darparwyr mwy yn y dalgylchoedd, gan wella ac ymestyn yr hyn sydd ar gael i bobl leol. Mae arian lleol yn aros yn lleol ac mae swyddi lleol yn cael eu creu sy'n ychwanegu gwerth cymdeithasol. Mae aelodau arweiniol y Cabinet yn cefnogi'r potensial hwn.

## Gwersi a myfyrdodau

### Y Gymuned

- Mae'r gymuned yn gryf yng Ngwynedd. Mae Covid wedi dangos ysbryd cymunedol enfawr ym mhenrhyn Llŷn. Bu llawer o bobl yn gweithio gyda'i gilydd i helpu eraill, a chynullwyd cyfarfodydd lleol o asiantaethau i helpu i wneud i hyn ddigwydd.
- Mae cwestiynau ynghylch sut mae cadw'r egni a'r parodrwydd a gafodd eu datgloi drwy Covid.

### Yr Economi

- Hoffai'r Cyngor helpu i greu neu alluogi swyddi mwy diogel sy'n talu'n dda, sy'n adeiladu economïau cyfrannol yn hytrach nag echdynnu.
- Mae nifer fawr o fentrau bach ac unig fasnachwyr a mentrau cymdeithasol eisoes yn bodoli yng Ngwynedd, gan gynnwys y rhai sy'n cynnig gofal a chymorth yn y cartref. Mae hyn yn dangos y potensial i harneisio pŵer llawer o atebion bach o ran economïau, twf a buddsoddiad yn hytrach nag un neu ddau o gyfleoedd mwy.

### Economi a gofal cymdeithasol

- Nid yw gofal cymdeithasol yn cael ei weld eto fel sector ffocws cryf ar gyfer twf economaidd a swyddi da. Gallai hynny ddigwydd, ac mae'r seilwaith yno i wneud i hynny ddigwydd.

- Nid yw Economi a Chymunedau mewn cysylltiad da â gofal cymdeithasol ar hyn o bryd. Gallai fod llawer i'w ennill drwy gydweithio'n well.
- Gallai trawsnewid gofal cymdeithasol gysylltu'n dda ag adfywio economaidd. I wneud hyn, mae angen rhannu gwaith, bwriad ac iaith gyda llesiant a 'bywyd cyfan' fel ffocws, nid gwasanaethau statudol ac 'atal'. Cyfleoedd gwirioneddol i ddod â'r ddau weithlu at ei gilydd i rannu gwybodaeth ac arbenigedd, chwalu'r labeli a'r seilos a meddwl yn wahanol ac ar y cyd.
- Gallai mentrau cymunedol llai sy'n gweithredu'n llwyddiannus yn y sector gofal/lles gynnig cyfle i rai pobl gadw eu ffordd hyblyg o fyw/gweithio ar yr un pryd â'i wneud yn fwy diogel ac yn llai peryglus yn economaidd. Byddai'r gwaith yn cael ei wneud drwy gydol y flwyddyn ac nid dim ond yn dymhorol, yn lleol iawn a gyda marchnad/cyfle cyson i gael incwm.
- Mae gan yr ardal economi gref sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, gyda chwmnïau bach yn cynnig glanhau cartrefi gwyliau ac ati. Ble mae'r bobl hyn yn mynd allan o'r tymor? A allen nhw redeg mentrau bach neu gyfrannu at yr economi gofal mewn rhyw ffordd arall? A allai pethau edrych yn wahanol gydag agwedd a llygaid creadigol?

## Gofal cymdeithasol – bylchau, heriau a photensial

- Ar hyn o bryd mae gofal cymdeithasol ac iechyd yn ganolbwynt i raglen drawsnewid fawr a chadarnhaol
- Ymddengys bod trafodaethau am ofal cartref a chymorth yn y cartref ar hyn o bryd yn canolbwyntio'n gryf ar 'becynnau', 'galwadau' ac amser a thasg, yn hytrach na chanlyniadau i bobl a chanfod y ffordd orau o'u cyflawni. Er enghraifft, mae'r ffurflen ar-lein sy'n cael ei defnyddio gan Dimau Adnoddau Cymunedol yn gofyn i bobl pa wasanaethau maen nhw eu heisiau a beth yw eu hangenion, yn hytrach na beth sy'n bwysig iddyn nhw, beth sy'n gweithio iddyn nhw a beth gallen nhw fod angen help arnyn nhw i'w gyflawni.
- Mae Cysylltwyr Cymunedol yn cael eu recriwtio a'u cyflogi gan fudiadau sy'n darparu'r trydydd sector. Mae ganddyn nhw gysylltiad da yn y sector gwirfoddol a mentrau cymdeithasol, od mae'n bosib nad oes ganddyn nhw yr hyder na'r sgiliau priodol na'r gallu i fod yn greadigol, yn gydweithredol ac i gysylltu'n ehangach.
- Mae recriwtio ym maes gofal cymdeithasol yn anodd. Mae methu â recriwtio yn arwain at anallu pobl i gael gafael ar wasanaethau gofal cartref gan asiantaeth neu gyflogi eu staff eu hunain. Canlyniad hynny yw rhestrau aros a rhwystredigaeth.
- Gallai rhaglen sy'n canolbwyntio ar fentrau llai, sy'n cysylltu â'r agenda trawsnewid a dysgu o brofiad mentrau gofal sefydledig, fod â rhan gadarnhaol i'w chwarae o ran mynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn a manteisio i'r eithaf ar rai o'r cyfleoedd datblygu economaidd a chymunedol ehangach.

## Y farchnad ar gyfer micro-fenter gymunedol ym maes gofal cymdeithasol – cael eich talu

- Mae angen dod o hyd i ffordd i fwy o fentrau bach sy'n cynnig gofal cartref a chymorth gartref gael eu talu am yr hyn maen nhw'n ei gynnig
    - Nid yw'n ymddangos bod cael eich comisiynu'n uniongyrchol gan y Cyngor yn ddewis, oherwydd mae'n annhebygol y byddan nhw'n ddigon mawr i fod wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

- Gallai un farchnad fod yn cyllido ei hun, ond mae'r cap ar gyfraniad at ofal yng Nghymru yn gwneud y farchnad bosib hon yn llai cryf nag y byddai yn Lloegr.
- Gellid defnyddio Taliadau Uniongyrchol ar raddfa fwy ond gallai hyn fod yn anodd o fewn y system a'r diwylliant presennol.

- Gallai cyfradd uwch o dâl sy'n deillio o gyfradd uwch o Daliad Uniongyrchol helpu i ddatrys heriau recriwtio. Gallai Taliadau Uniongyrchol fod yn ffordd gref o greu marchnad. Gallai marchnad gref sbarduno marchnad fwy ac un sy'n fwy amrywiol hefyd.

### Taliadau Uniongyrchol

- Mae pobl sy'n cymryd Taliad Uniongyrchol yn dweud eu bod yn gweithio'n dda, gyda'r rhyddid a'r hyblygrwydd sy'n galluogi canlyniadau personol da.
- Nid oes rhwystrau o ddifri o ran system na pholisi pan ddaw'n fater o ddefnyddio Taliad Uniongyrchol i brynu gwasanaethau micro-fentrau. Mae enghreifftiau o fentrau cymunedol sefydledig nad ydyn nhw wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n gweithredu ar Benrhyn Llŷn. Nid yw'r Cyngor yn gallu comisiynu eu gwasanaethau ond mae aelodau'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn cyfeirio pobl a fydd yn talu amdanyn nhw eu hunain. Gallai pobl hefyd ddefnyddio eu gwasanaethau os ydyn nhw'n cymryd Taliad Uniongyrchol. Mae hyn yn dangos beth sy'n bosib.
- Er gwaethaf yr enghreifftiau cryf hyn, mae llawer o rwystrau o ran arferion a diwylliant
- Mae cael Taliad Uniongyrchol yn cael ei ystyried yn fater cymhleth ar gyfer gweithwyr a deiliaid.
- Nid yw Gweithwyr Cymdeithasol bob amser yn gadarnhaol am Daliadau Uniongyrchol, na chwaith yn greadigol wrth eu defnyddio.
- Mae Taliadau Uniongyrchol yn cael eu hystyried yn bennaf ar gyfer pobl sy'n cyflogi eu staff eu hunain. Mae gan y contract gyda Rowan neu ddarparwr arall ffocws 'staff ei hun'/PA.
- Nid yw'r gyfradd Taliad Uniongyrchol yn ddigon uchel i gyllido gwasanaeth dan gontract gan ficro-fentrau ar raddfa fawr.
- Mae angen gwireddu'r potensial damcaniaethol ar gyfer cyfraddau uwch yn ymarferol ac ar raddfa fawr. Nid yw Taliadau Uniongyrchol yn cael eu defnyddio'n helaeth ar benrhyn Llŷn ac mae hyn yn arbennig o wir am bobl hŷn.
- Mae'n bosib y bydd cyfle i gynnal adolygiad mewnol gan y Cyngor o brosesau ac arferion Talu Uniongyrchol.

## Casgliadau

- Mae gan Wynedd economi gofal cudd yn barod, gydag entrepreneuriaid sy'n gysylltiedig, yn frwdfrydig ac yn sylfaen i adeiladu arni.
- Mae'r agenda trawsnewid yn arwain at ailstrwythuro mawr sydd ar y gweill ac yn creu llawer o gyfleoedd ac ysgogiad i feddwl a gwneud pethau'n wahanol ac yn well. Mae arweinyddiaeth gref a thîm medrus ar waith.
- Fel rhan o'r agenda hon, mae'n ymddangos bod potensial gwirioneddol i ddod â gwaith at ei gilydd ar draws adrannau'r Cyngor a blaenoriaethau cymunedol gyda gofal cymdeithasol ac iechyd (creadigol, dan arweiniad y gymuned) yn rhan ganolog o hynny.

- Gallai rhaglen datblygu micro-fenter gymunedol, sydd â chysylltiad cryf ag Economi a Chymunedau, ond sy'n cael ei harwain gan ofal cymdeithasol/iechyd, gyda chysylltiadau â'r ardaloedd newydd, weithio'n dda.
- Mae Covid wedi creu cysylltiadau a phrofiad y gellid adeiladu arnyn nhw yn awr, ac mae'n ymddangos bod llawer o fentrau cymdeithasol lleol creadigol a mentrau eraill a fyddai'n fodlon ffurfio partneriaethau.
- Gan weithredu yn y ffordd iawn, gallai hefyd helpu i gefnogi'r systemau a'r newid mewn diwylliant a'r cysylltiadau gwaith sy'n angenrheidiol i greu'r marchnadoedd cryf sy'n angenrheidiol er mwyn iddo fod yn gynaliadwy ac yn drawsnewidiol.
- Mae llawer o ddarnau o'r jig-so eisoes yn eu lle ond gallai Gwynedd elwa ar gymorth i gysylltu'r rhain a llenwi bylchau bach yn y darlun. Gan adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn allweddol, mae angen i unrhyw raglen micro-fenter gymunedol gyd-fynd yn union â'r hyn sy'n digwydd ym mhob ardal – nid ychwanegu haenau ar y brig.

## Cyfeiriadau


**Cynllun y Cyngor**

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Cynllun-Cyngor-Gwynedd-2018-2023/Cynllun-Cyngor-Gwynedd-2018-2023.pdf

**Perfformiad y Cyngor o'i gymharu â'r cynllun**

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-Cyngor-Gwynedd-2018-23/Adroddiad-Perfformiad-Blynyddol-Cyngor-Gwynedd-19-20-HYG.pdf

**Y Gyfarwyddiaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant - cynllun**

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Adrannaur-Cyngor/Cynlluniau-adran-2021/Cynllun-Adran-Oedolion.pdf

**Datganiad o fwriad**

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Dogfennau-trigolion/Iechyd-a-gofal-cymdeithasol---dogfennau/Datganiad-o-fwriad-gogledd-Cymru.pdf

**Darparwyr Gofal Cartref cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru yng Ngwynedd**

https://arolygiaethgofal.cymru/service-directory

**Gweddnewid Rhwystrau**

https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/trawsffurfio-iechyd-a-gofal-cymunedol-gwynedd-a-mon/

**Eiriolaeth**

https://nwaaa.wales/cy/prosiect-gwynedd/

# Atodiad A

## Cysylltu â mentrau sefydledig a dysgu oddi wrthyn nhw

### Mentrau cwmpasu yng Ngwynedd

Nod yr adroddiad hwn oedd nodi ac ymgysylltu â micro-fentrau cymunedol presennol sy'n cynnig cymorth a gofal i bobl ar benrhyn Llŷn. Roedden ni eisiau darganfod: -

- Maint, graddfa a chwmpas y mentrau presennol a'r hyn maen nhw'n ei gynnig
- Y rhwystrau i heriau o ran sefydlu a chynnal eu gwasanaethau.
- Eu cefnogaeth a mynediad at wybodaeth/hyfforddiant
- Eu syniadau ar gyfer y dyfodol ac ymrwymiad i greu economi gofal lleol ffyniannus ar Benrhyn Llŷn.


### Niferoedd

Bu i ni ganfod, ymgysylltu a chyfweld:

- 8 o fentrau cymorth a gofal hunangyflogedig
- 8 o fentrau cymorth domestig a glanhau/twristiaeth sydd ar waith yn ystod y gwyliau

Fe wnaethom sefydlu fforwm trafod a chyfoedion a oedd yn cynnwys yr 16 o fentrau ac arweinwyr cymunedol hyn.

Drwy gyfweliadau ac arolygon, cawsom wybod am 15 o bobl eraill sy'n cynnig cymorth gyda thâl i bobl leol, er nad oedd modd i ni eu cyfweld nhw i ddysgu mwy.




## Beth ddywedodd arweinwyr mentrau wrthym

Fe wnaethom gysylltu ag 8 gwasanaeth glanhau a chymorth domestig, gyda 7 ohonyn nhw'n canolbwyntio ar y diwydiant gwyliau a thwristiaeth yn unig. Er bod gan y staff a'r rheolwyr gefndir mewn gofal, dim ond un o'r gwasanaethau cymorth domestig a glanhau a oedd yn hyrwyddo eu hunain yn weithredol i bobl yr oedd angen cymorth a gofal arnyn nhw. Teimlwyd ei bod yn fuddiol yn ariannol canolbwyntio ar lety gwyliau. Roedd gan un fenter lanhau ddiddordeb ac roedd wedi ymchwilio i hyn o'r blaen ond roedd yn teimlo bod y rheoliadau yn rhwystr rhy fawr i'w oresgyn.

Ar lafar, roeddem fe wnaethom ganfod ac ymgysylltu ag 8 o fentrau hunangyflogedig ychwanegol sy'n cynnig gofal personol, cymorth yn y cartref ac yn y gymuned. O'r 8 menter hyn: -


- Roedd 7 yn dibynnu'n llwyr ar argymhellion gan bobl eraill i gael gwaith. Dim ond un o'r arweinwyr menter a hyrwyddodd eu gwasanaeth yn weithredol.
- Roedd 2 yn gweithio'n llawn amser a'r 6 o bobl a oedd yn weddill yn cael cymorth ochr yn ochr â swyddi eraill neu ymrwymiadau gofal teulu.
- Roedd 4 menter yn cefnogi pobl hŷn neu bobl ag anabledd ochr yn ochr â glanhau tai haf
- 6 cynnig gofal personol fel rhan o'u gwasanaeth
- Ar gyfartaledd, roedd y mentrau'n gweithio gyda 5 o bobl ar unrhyw adeg
- £14 yr awr oedd cost gyfartalog eu gwasanaethau
- Ar gyfartaledd, roedd 22.5 awr yn cael eu gweithio bob wythnos

## Cefndir y mentrau

Roedd y rhan fwyaf o arweinwyr mentrau yn rhan o ddarparu cymorth ar ôl i gymdogion neu ffrindiau ofyn iddyn nhw wneud hynny. Roedd 4 o’r 8 menter yn awyddus i symud oddi wrth gyflymder a gofynion gofal cartref traddodiadol, i gyflymder arafach lle’r oedd ganddyn nhw fwy o reolaeth ac y gallen nhw gynnig mwy o hyblygrwydd i’r bobl roedden nhw’n eu cefnogi.

**Astudiaeth Achos**

Mae Beryl yn gweithio yn y Siop Sba lleol ac mae hefyd yn cynorthwyo pobl ar ei stryd. Mae’r holl gymorth mae hi wedi ei gynnig wedi deillio o sgyrsiau ar lafar. Mae hi’n ymfalchïo mewn gallu cynnig cymorth o safon uchel. Bu Beryl yn cynorthwyo Harold, ffrind i’r teulu, am flynyddoedd. Drwy ei chymorth, llwyddodd Harold i ail-ymgysylltu â’i gariad at deithio. Fe aethon nhw ar wyliau gyda’i gilydd i Barbados.




Roedd 5 o’r 8 darparwr yn adnabod rhywun a oedd eisoes yn hunangyflogedig.

Roedd thema gref y dod i'r amlwg, sef bod llawer wedi sefydlu eu gwaith ac wedi cynorthwyo pobl ochr yn ochr ag ymrwymiadau teuluol neu ofal plant.

*Ar ôl gofalu am ddau riant â Dementia am 5 mlynedd ochr yn ochr â gweithio dros nos mewn cartref gofal, roedd angen newid arnaf. Nid oedd fy rhieni’n fodlon derbyn gofalwr, na chael pobl wahanol ar amseroedd gwahanol, felly roeddwn i eisiau cynnig y dilyniant hwnnw i bobl eraill.*

**Arweinydd Menter Gymunedol**

Mae’n amlwg o’r cyfryngau cymdeithasol bod llawer o’r mentrau’n gwybod am ei gilydd a’u bod nhw eisoes wedi gwneud cysylltiadau ag eraill sy’n darparu gwasanaethau tebyg.

## Y rhwystrau a’r heriau mae pobl yn eu hwynebu

Nid oes gan y rhan fwyaf o’r mentrau berthynas â Chyngor Gwynedd, ond roedden nhw’n siarad yn gadarnhaol am gysylltu â’r Cyngor os oes ganddyn nhw broblem. Yn y cyfweliad, doedd neb erioed wedi gorfod gwneud hyn. Codwyd mater hyfforddiant - nid oes mynediad ffurfiol na llwybr at hyfforddiant nac i adnewyddu eu hyfforddiant presennol. Roedd rhai darparwyr yn gallu cael gafael ar hyfforddiant ar-lein. Mae un o’r arweinwyr menter a oedd wedi cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru yn flaenorol yn gallu cael gafael ar hyfforddiant a chysylltu eraill â hyn.

Roedd dau grŵp o fentrau yn cynnig gwasanaethau i bobl sy’n defnyddio Taliad Uniongyrchol. Mae’r mentrau hyn yn cael cyswllt gan eu Tîm Adnoddau Cymunedol lleol. Fodd bynnag, cysylltodd y rhan fwyaf ohonyn nhw â’u gwaith drwy gyllido eu hunain ac argymhellion ar lafar.

Pan ofynnwyd iddyn nhw beth yw'r agwedd fwyaf heriol o ran cynnig gwasanaeth cymorth/gofal annibynnol, soniodd pobl am ddod o hyd i lety ar gyfer salwch a gwyliau, natur afreolaidd y gwaith a'r teimlad o fod ar eu pen eu hunain.

## Cyfleoedd a photensial ar gyfer y dyfodol

Mae'n amlwg bod cymuned gref, fywiog a chysylltiedig ar benrhyn Llŷn. Llwyddodd y fforwm Facebook newydd i ddenu 16 o arweinwyr menter a chymunedol sy'n rhannu brwdfrydedd ac ymrwymiad i helpu i ategu economi gofal leol. Pan ofynnwyd, roedd y rhan fwyaf o fentrau'n gwybod am o leiaf un fenter arall neu wedi sefydlu cysylltiad â menter arall.

Yn ystod ein hymchwil, cawsom wybod am 12 unigolyn arall a gynigiodd y cymorth hwn ond a wrthododd gael eu cyfweld. Roedd yn galonogol iawn clywed bod y rhwydweithiau cudd hyn yno, ond nid oes llawer o wybodaeth am y cymorth a ddarperir ganddyn nhw.

Yn ogystal, fe wnaethon ni ofyn i bob menter

*Pe bai cymorth ar gael i sefydlu a chael gwaith rheolaidd, faint o bobl ydych chi'n gwybod a allai fod â diddordeb mewn sefydlu menter/mynd yn hunangyflogedig?*

Roedd y rhan fwyaf o'r arweinwyr menter a gyfwelwyd yn adnabod rhywun a allai fod â diddordeb ond a oedd yn poeni am y broses sefydlu neu'r llif gwaith neu'r ochr reoleiddio ar gyfer sefydlu gwasanaeth.

*Mae'n ddewis gwych i bobl fy oedran i, gan fod gennych chi rywfaint o sicrwydd drwy gydol y flwyddyn, a gall ffitio o gwmpas ymrwymiadau gyda'r wyrion. Rydw i'n adnabod llawer o ferched a fyddai â diddordeb mawr* **Arweinydd Menter**

*Rydw i'n lanhawr ar hyn o bryd ond hoffwn gynnig gofal, ond doeddwn i ddim yn gwybod ei fod yn bosib heb i'r gwaith gael ei reoleiddio*
**Menter Bosib.**

Pan holwyd yr arweinwyr menter, dywedodd pob un y bydden nhw'n fwy na pharod i siarad â, mentora neu gynorthwyo rhywun a oedd yn awyddus i gynnig cymorth a sefydlu eu menter eu hunain. Yn yr un modd, byddai pob un o'r mentrau y buom yn siarad â nhw sy'n gweithio ochr yn ochr â swyddi eraill neu ymrwymiadau gofal teulu yn fodlon gwneud mwy o waith pe bai'r seilwaith a'r cymorth ar gael.

Wrth holi ynghylch yr help y bydden nhw'n ei werthfawrogi fwyaf yn y dyfodol, soniodd y darparwyr am

- Gyfeiriadur canolog o fentrau cymunedol
- Rhwydwaith cymorth gan gymheiriaid
- Cod ymddygiad neu safon ansawdd canolog.

*Yn y dyfodol, hoffwn gael rhywle i fynd pe bai gen i neu unrhyw un arall broblem. Byddwn am gael hyder fy mod i ac eraill wedi sefydlu i'r un safonau. Dydyn ni ddim eisiau i rywun-rywun wneud hyn. Mae angen system lle mae'r ddwy ochr yn ddiogel. Amddiffyniad i'r gweithiwr a'r*

*unigolyn. Asesu a sicrhau bod gan bobl y gwerthoedd cywir a'u bod yn mynd i'r afael â hyn am y rheswm cywir* **Un a gyfwelwyd**

